Joint review

Cydadolygiad

Chwefror 2008

Cydadolygiad o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion

Crynodeb

AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi ynghylch y rhaglen gydadolygu yng Nghymru ar gael ar y wefan: **www.joint-reviews.gov.uk** neu gan:

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 01443 848483
Cyfeiriad E-bost: **JointReviews@wales.gsi.gov.uk**

G/432/07-08
ISBN 978 0 7504 4461 3

Chwefror
CMK-22-11-027

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2008

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad cryno hwn am gydadolygiad[1] a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru.

Bwriad yr adolygiad yw ateb dau gwestiwn allweddol:

- pa mor dda yw'r gwasanaethau cymdeithasol y mae pobl yr ardal yn eu derbyn?
- beth yw sefyllfa'r Cyngor o ran cynnal a gwella gwasanaethau?

Mae'r adroddiad yn amlinellu prif gasgliadau'r Tîm Adolygu, ar sail dadansoddiad trylwyr o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn. Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad yn:

- dweud wrth y cyhoedd pa mor dda y gwasanaethir pobl;
- helpu'r gwasanaethau hyn i wella;
- diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion; a
- sicrhau gwell gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

Cynhelir cydadolygiadau yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, sy'n rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru adolygu'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau o ran gwasanaethau cymdeithasol. Dirprwyir y dasg o gynnal adolygiadau i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac mae Deddf Llywodraeth Cymru (1998) (fel y'i diwygiwyd) yn galluogi cyfranogiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cynhaliwyd y Cydadolygiad o wasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion gan dîm yn cynnwys Kevin Barker, Adrienne Woolfe, Helen Keatley, John Llewellyn Thomas, Rob Gifford a Julia Phillipson, gydag Alice Jones a Phillip Williams yn aseswyr lleyg. Ymwelwyd â safle'r Cyngor rhwng Hydref 2006 a Ionawr 2007. Rhoddwyd cyflwyniad ar gasgliadau'r adolygiad hwn i'r Cyngor yn Chwefror 2007.

Yn yr Adolygiad, roeddem yn dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth y Cyngor a rhanddeiliaid eraill. Bu amryw o unigolion a grwpiau'n cydweithio wrth gynllunio a chefnogi'r broses adolygu. Hoffai'r Tîm Cydadolygu ddiolch i bawb a gyfrannodd trwy rannu eu profiadau a'u barn.

Ceir hefyd adroddiad llawn yn amlinellu asesiad y Tîm Adolygu o'r Cyngor mewn mwy o fanylder. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r dystiolaeth bwysicaf a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad, gan nodi cryfderau ac arferion da yn ogystal â meysydd i'w datblygu.

[1] Lle defnyddir y term *cydadolygiad* heb briflythyren, mae hynny'n dynodi'r rhaglen gyffredinol yng Nghymru. Mae *Cydadolygiad* gydag 'C' fawr yn cyfeirio at yr adolygiad a gynhaliwyd yng Ngheredigion.

Gofynnwyd i'r Cyngor lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad llawn. Bydd AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd â gwaith pellach er mwyn gwerthuso'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r camau hyn, a'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion.

Mae'r adroddiad llawn a'r crynodeb hwn i'w gweld ar y wefan cydadolygu.

Rob Pickford
Prif Arolygydd

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Casgliadau Cyffredinol

Mae'r bennod hon yn crynhoi dyfarniad cyffredinol y Tîm Cydadolygu am y Cyngor. Mae'n amlygu cryfderau allweddol y Cyngor, ac yn disgrifio'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

1.1 Crynodeb

Bernir bod gan Gyngor Sir Ceredigion wasanaethau da a'i fod mewn sefyllfa dda i gynnal a gwella gwasanaethau (Arddangosyn 1).

Arddangosyn 1: Sefyllfa Ceredigion ym matrics perfformiad y cydadolygiad



Ers y Cydadolygiad diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer pobl sy'n agored i niwed a'r rhai mewn angen. Mae mwy o bobl yn cael help i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi ac yn cael eu cynnwys yn eu cymunedau. Mae'r mwyafrif o bobl yn ei chael yn haws i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, ac ar y cyfan maent yn cael ymateb prydlon. Nid yw'r gwelliannau hyn eto wedi'u cefnogi gan gynllunio gofal sy'n gyson dda.

Mae'r Cyngor wedi cynyddu ei fuddsoddiad mewn gwasanaethau cymdeithasol ac mae partneriaethau gweithredol da gyda phartneriaid wedi helpu i sicrhau amryw o wasanaethau newydd, ac weithiau, arloesol. Mae systemau ar gyfer comisiynu a rheoli perfformiad yn datblygu a gwnaed peth cynnydd arwyddocaol o ran recriwtio a chadw staff.

Mae mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod yr elfennau angenrheidiol i siapio a chyflenwi gwasanaethau cymdeithasol yn ddiogel yn eu lle. Bydd hyn yn golygu gwell ffocws ar sicrhau canlyniadau da i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd â systemau i fesur a monitro i ba raddau y cyflawnir hyn.

Mae cyfeiriad clir wedi'i sefydlu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen i'r Cyngor gefnogi hyn yn fwy trefnus er mwyn cyrraedd y nod. Bydd gwell cysylltiadau rhwng cynllunio gofal, comisiynu a monitro contractau yn helpu'r Cyngor i droi ei gynlluniau'n fwriadau i brynu ac yn cynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr gwasanaeth.

1. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau da ar y cyfan

Gwasanaethau ar gyfer oedolion

Mae ystod ehangach o wasanaethau ar gael i fodloni anghenion oedolion nag yn y Cydadolygiad diwethaf.

- Mae mwy o bobl hŷn yn cael help i fyw yn eu cartrefi.
- Mwy o ddefnydd o daliadau uniongyrchol.
- Mae gan bobl ag anableddau dysgu erbyn hyn fynediad at amryw o wasanaethau newydd a chreadigol.
- Cafwyd gostyngiad sylweddol, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn nifer y bobl sy'n methu â gadael ysbyty ar yr adeg briodol (oedi wrth drosglwyddo gofal).

Mae bylchau'n parhau ac mae'r Cyngor yn parhau i weithio ar ymestyn y gwasanaethau sydd ar gael ar draws y sir. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod gwasanaethau megis ail-alluogi, ymateb mewn argyfwng a llety â chymorth ar gael yn hwylus. Er hynny, mae'r adolygwyr yn cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed ers y Cydadolygiad diwethaf a bod yna symudiad o blaid dewisiadau cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Mae'r trefniadau ar gyfer asesu, rheoli gofal ac adolygu yn anghyson. Nid yw asesiadau'n canolbwyntio'n gyson ar ganlyniadau ac mae adolygiadau wedi cronni ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn. Mae angen i gynllunio gofal ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ganolbwyntio mwy ar osod y person yng nghanol y cynllun ac arweiniad cryfach gan reolwyr o ran arwain a chefnogi staff. Mae'r trefniadau'n gryfach mewn gwasanaethau i bobl ag anghenion iechyd meddwl, lle'r oedd ansawdd asesiadau yn arbennig o dda, gan ddangos tystiolaeth glir o gynnwys y defnyddiwr a dadansoddiad da o'r materion.

Caiff oedolion agored i niwed eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac roedd ansawdd yr ymarfer rheng flaen a welwyd, yn dda. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth hefyd bod y trefniadau ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed dan bwysau:

- Staff yn nodi eu bod dan fwy o straen; a
- Rhai unigolion allweddol yn teimlo bod y trefniadau cymorth yn annigonol ar gyfer swm a chymhlethdod cynyddol y gwaith yn y maes hwn.

Gwasanaethau ar gyfer plant

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ymateb amserol. Mae meini prawf cymhwyster yn cael eu cymhwyso'n gyson. Mae angen gwneud mwy i gael asiantaethau eraill i gymryd mwy o ran mewn asesiadau cychwynnol a chynyddu'r defnydd o asesiadau craidd, a'u cynnwys. Mae dadansoddiad asesiadau yn aml yn wan neu'n anghyflawn. Mae angen help ar y tîm asesu cymharol amhrofiadol i gyflawni arferion da, ac yn fwy cyson. Mae yna gydymffurfio da â'r amserlenni ar gyfer cynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal. Mae'r system o adolygu achosion yn

gadarn. Mae yna baneli llwyddiannus ar gyfer rheoli derbyniadau i lety, cynllunio parhad ac anghenion cymhleth.

Mae angen i'r Cyngor dalu sylw arbennig i wella'r trefniadau amddiffyn plant. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n galed a phlant yn cael eu hamddiffyn o ran ymateb cadarn i bryderon cychwynnol. Mae angen dull mwy systematig o asesu a rheoli risg yng nghamau olaf gwaith amddiffyn plant. Dim ond dechrau cyflwyno proses systematig ar gyfer asesu risg oedd y Cyngor yn ystod y Cydadolygiad. Nid oedd penderfyniad i ymgymryd ag archwiliad amddiffyn plant ffurfiol bob amser yn esgor ar asesiad craidd (hy manwl). Roedd y ffocws ar ganlyniadau ar ôl y gynhadledd achos amddiffyn plant yn wan. Mae angen gwella'r modd mae grwpiau craidd yn cael eu cadeirio a'u rheoli. Roedd tystiolaeth annigonol bod ymarfer gwaith cymdeithasol o safon ddigon da i adolygwyr fod yn hyderus ynglŷn â'r canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae'r system cynhadledd achos amddiffyn plant yn dda. Bu'r trawsnewid o'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant i'r Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant yn amserol a chafodd ei reoli'n dda. Dylai hyn wella'r gwaith rhyngasiantaethol o amddiffyn plant.

Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth aml-asiantaeth ar gyfer cefnogi teuluoedd, ond cymharol fach a digyswllt yw gwasanaethau cefnogi teuluoedd yn y maes. Mae'r gwasanaeth lleoli â theuluoedd wedi gwella a chafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a leolwyd y tu allan i'r sir. Mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol wedi buddsoddi yn ei wasanaeth maethu er mwyn gwella dewisiadau i blant nad ydynt bellach yn gallu parhau i fyw gyda'u teulu. Er hynny, mae'n dal i gael anawsterau i sicrhau llety priodol i blant ag ymddygiad heriol neu anghenion arbennig eraill. Mae yna gyswllt a chymorth da ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r Tîm Plant Anabl wedi gwneud cynnydd da mewn ymateb i arolygiad cynharach ac yn enghraifft gref o sut mae partneriaeth effeithiol, aml-asiantaeth yn gweithio. Mae taliadau uniongyrchol o fewn gwasanaethau plant wedi cynyddu.

2. Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal a gwella'r gwasanaethau ymhellach

Siapio gwasanaethau (defnyddio adnoddau; cynllunio a phartneriaethau; comisiynu a chontractio)

Mae'r ystod o wasanaethau yn gwella, sy'n darparu tystiolaeth dda o'r cynnydd a wnaed gyda phartneriaethau a chynllunio. Mae partneriaethau gweithredol yn gweithio'n dda o ran cyflwyno canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r trefniadau ar gyfer monitro contractau yn llawer iawn gwell nag yn y cydadolygiad diwethaf, er nad ydynt ond yn gallu cyflwyno adolygiad blynyddol ar gyfer y mwyafrif o wasanaethau. Mae angen i drefniadau monitro gysylltu'n well â gwybodaeth mewn adolygiadau cynlluniau gofal, cwynion a data amddiffyn oedolion. Mae strategaeth gomisiynu'r adran yn newydd, heb gael ei phrofi a heb gynnwys digon o fanylder ynghylch bwriadau prynu.

Ceir nodweddion cadarnhaol yn y modd mae'r Cyngor yn defnyddio'i arian a'i asedau. Cynyddwyd y buddsoddiad mewn gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r adran wedi rheoli'r gyllideb yn effeithiol o'r canol. Cymerwyd camau i ddechrau mynd i'r afael â phroblem diffyg arian wrth gefn ar lefel gorfforaethol ac adrannol. Oherwydd y cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol a'r disgwyliadau cynyddol o ran ansawdd gwasanaeth,

mae hyd yn oed yn fwy hanfodol i'r Cyngor ganolbwyntio mwy ar wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. I wneud hyn, bydd yn rhaid iddo sicrhau:

- bod yr holl staff yn fwy ymwybodol o faterion gwerth am arian;
- bod strategaethau comisiynu ar draws bob maes gwasanaeth wedi'u cynnal gan wybodaeth ariannol, yn cynnwys yr adnoddau ar gael; a
- bod penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau wedi'u cysylltu â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y cynlluniau strategol a gwasanaeth.

Cyflenwi gwasanaethau cymdeithasol (gweithlu; rheoli perfformiad)

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno gwell trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, sy'n dechrau cael eu cymhwyso mewn gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r system newydd yn gadarn, ac, o fewn yr adran, yn adeiladu ar drefniadau blaenorol i fonitro perfformiad yn erbyn amrediad o ddangosyddion. Yn ymarferol, amrywiol oedd y defnydd o wybodaeth dda i reoli perfformiad. Roedd adroddiadau rheng flaen clir ynglŷn â pherfformiad mewn perthynas ag asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau wedi'u cymhwyso mewn modd anghyson mewn gwasanaethau oedolion. Dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd y system arfarnu sy'n dal staff i gyfrif am eu perfformiad, mewn gwell fformat. Nid oedd y trefniadau blaenorol yn ddigon cadarn, gan ddibynnu'n ormodol ar ddulliau cyflwyno anffurfiol.

Cymerwyd camau breision o ran cadw staff, cyflawni cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol a datblygu cyfleoedd hyfforddi i staff. Mae'r nifer uchel o staff rhan-amser a nifer y secondiadau yn golygu bod y cynnydd, hwn, ar brydiau, wedi bod ar draul dilyniant staff i rai defnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion.

Darparu cyfeiriad (arweiniad a diwylliant mewn gwasanaethau cymdeithasol; cymorth corfforaethol a gwleidyddol a chraffu)

Mae'r Uwch Dîm Rheoli gwasanaethau cymdeithasol yn symbylol, yn gyd-gefnogol a hygyrch i'r staff. Gyda'i gilydd, maent wedi meithrin diwylliant cynhwysol yn canolbwyntio ar wasanaeth gofalgar. Ar y cyfan, bu trefniadaeth gwasanaethau cymdeithasol yn glir a sefydlog. Mae angen sefydlu trefniadau mwy trwyadl ar gyfer adolygu a herio gwasanaethau a pherfformiad. Mae angen i arweinyddiaeth uwch yr Adran ddangos yn fwy cyson y gall y defnydd o dechnegau rheoli busnes, megis rheolaeth prosiectau effeithiol, wella perfformiad a chyflymu newid seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r cynnydd yn y buddsoddiad mewn gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y blynyddoedd diweddar yn arwydd bod yr adran wedi codi ei phroffil o fewn y Cyngor. Ceir enghreifftiau o weithio da mewn partneriaeth ar lefel gorfforaethol er mwyn cyflwyno amcanion gwasanaethau cymdeithasol, sy'n gynwysedig yn y strategaeth gorfforaethol. Mae yna aelodau arweiniol cryf a gwybodus ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phlant. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y mae'r trefniadau craffu wedi canolbwyntio ar wybodaeth am berfformiad. Barnai'r adolygwyr bod angen i'r Cyngor fabwysiadu dulliau mwy cydlynol o gyflwyno newidiadau ar raddfa eang os yw am wynebu'r sialensiau sylweddol sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol sy'n bodloni disgwyliadau cynyddol.

1.2 Canfyddiadau allweddol

Ceisiodd yr Adolygiad ateb dau gwestiwn allweddol:

- Pa mor dda yw'r gwasanaethau? (Arddangosyn 2)
- Beth yw sefyllfa'r Cyngor o ran cynnal a gwella gwasanaethau? (Arddangosyn 3)

Arddangosyn 2: Pa mor dda yw'r gwasanaethau?

Dyfarniad y Tîm Adolygu

	Gwael	Anghyson	Da ar y cyfan	Rhagorol
Mynediad at wasanaethau			•	
Asesu		•		
Rheoli ac adolygu gofal		•		
Ystod y gwasanaethau a ddarperir			•	
Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir			•	
Trefniadau ar gyfer amddiffyn pobl sy'n agored i niwed		•		
Llwyddiant wrth hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol			•	

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Ystod dda o wybodaeth o ansawdd da am y gwasanaethau • Trefniadau atgyfeirio a mynediad effeithiol ac effeithlon gan ddefnyddio'r ganolfan gyswllt • Y defnydd o'r Fframwaith Asesu a defnydd cyson o feini prawf cymhwyster mewn gwasanaethau plant • Ystod eang o wasanaethau ar gyfer oedolion, gan gynnig mwy o ddewisiadau ar gyfer cymorth yn y gymuned • Recriwtio gofalyddion maeth yn arwain at leoli llai o blant y tu allan i'r sir	• Gwella cynnwys asesiadau (gan gynnwys asesiadau risg) mewn gwasanaethau plant) • Gwella amseru ac ansawdd asesiadau yn y gwasanaethau oedolion • Datblygu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau yn y gwasanaethau oedolion a phlant • Gwella ymarfer amddiffyn plant, gan gynnwys defnyddio grwpiau craidd ac asesiadau craidd • Gwella amseru adolygiadau yn y gwasanaethau oedolion

• Gwasanaethau o ansawdd da sy'n parchu anghenion ac amgylchiadau unigol pobl • Arferion da o ran amddiffyn oedolion, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau • Cyswllt a chymorth i bobl ifanc yn gadael gofal • Nifer gymharol uchel o bobl yn defnyddio taliadau uniongyrchol • Perfformiad da, flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal	• Cryfhau'r agwedd ataliol yn y gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gan gynnwys gwell rhychwantu a chysyltu rhwng yr ystod o wasanaethau sydd ar gael

Arddangosyn 3: Beth yw sefyllfa'r Cyngor o ran cynnal a gwella gwasanaethau?

Dyfarniadau'r Tîm adolygu

	Sefyllfa wael	Sefyllfa ansicr	Sefyllfa dda	Sefyllfa gadarn
Gweithlu			•	
Rheoli perfformiad		•		
Cynllunio a phartneriaethau			•	
Comisiynu a chontractio		•		
Adnoddau			•	
Arweiniad a diwylliant			•	
Cymorth corfforaethol a gwleidyddol a chraffu			•	

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Dull strategol o gynllunio gweithlu a gwell recriwtio a chadw staff • Strwythurau sefydledig ar gyfer cynllunio, partneriaethau a chydweithio • Parodrwydd i adolygu a newid trefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau • Rheolwyr cefnogol a hawdd mynd atynt • Morâl staff yn gadarnhaol ar y cyfan • Wedi cynyddu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau cymdeithasol ers y cydadolygiad diwethaf • Cysylltiadau clir rhwng amcanion y gwasanaethau cymdeithasol a'r strategaeth gorfforaethol	• Cael y gorau allan o wybodaeth rheoli a datblygu'r cysylltiadau rhwng cynllunio, atebolrwydd a rheoli perfformiad • Datblygu strategaethau comisiynu manwl ar draws bob ardal • Gwella trefniadau monitro contractau • Gwella'r cysylltiadau rhwng cynllunio ariannol a gwasanaethau • Sefydlu trefniadau craffu mwy effeithiol

1.3 Blaenoriaethau gweithredu

Mae'r adolygwyr wedi nodi'r meysydd blaenoriaeth canlynol ar gyfer gweithredu:

1. Gwella asesu, rheoli ac adolygu gofal

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal yn drylwyr a dulliau da o ddadansoddi gwybodaeth er mwyn goleuo'r broses o wneud penderfyniadau yn y gwasanaethau plant;
- sicrhau bod asesiadau craidd amserol yn digwydd yn ôl yr angen yn y gwasanaethau plant;
- gwella amseriad asesiadau therapi galwedigaethol arbenigol;
- cefnogi ac arwain ymarferwyr i gyflenwi cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio'n fwy cyson ar ganlyniadau ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant;
- sicrhau y cynhelir adolygiadau amserol o gynlluniau gofal yn y gwasanaethau oedolion.

2. Amddiffyn pobl sy'n agored i niwed

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- yn y gwasanaethau amddiffyn plant sicrhau gwell defnydd o:
  - asesu a rheoli risg;
  - asesiadau craidd;
  - grwpiau craidd;

- rhoi arweiniad ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed, gan helpu'r pwyllgor ardal i ddatblygu dull strategol ar gyfer amddiffyn oedolion yn y Sir.

Dylai'r Cyngor:

- fonitro effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu Plant Lleol o ran bodloni'r amcanion a nodwyd;
- adolygu'r trefniadau ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed gan gymryd y cynnydd yn swm a chymhlethdod y gwaith i ystyriaeth.

3. Datblygu partneriaethau strategol

Dylai'r Cyngor:

- roi ffocws i'r bartneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau GIG trwy ddatblygu targedau a mesurau perfformiad cyffredin wrth anelu at rannu amcanion a dyheadau;
- ceisio gwella rhychwant ac argaeledd yr ystod ehangach o wasanaethau i oedolion a phlant.

4. Cael y gorau o'r adnoddau sydd ar gael

Dylai'r Cyngor:

- ddatblygu'r cyswllt rhwng cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau drwy ddatblygu'r strategaeth gomisiynu gwasanaethau cymdeithasol ymhellach;
- ystyried y risgiau i'r gwasanaethau cymdeithasol yn deillio o'r gostyngiad yn y cronfeydd adrannol a chorfforaethol, a llunio cynllun i leddfu'r risgiau hynny.

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- sicrhau y gweithredir dull cyson o gynllunio busnes ar draws yr adran, a chynnwys ymarferwyr a staff eraill mewn modd ystyrlon;
- cwblhau'r strategaethau comisiynu gan gynnwys:
  - cynlluniau manwl yn dangos sut y caiff y gwasanaethau eu hail-siapio;
  - gwybodaeth ariannol yn cynnwys yr adnoddau ar gael a chost unedol gwasanaethau; ac
  - ystyried posibiliadau comisiynu ar y cyd â'r GIG.

5. Rheoli perfformiad

Dylai'r Cyngor:

- sicrhau mecanwaith effeithiol ar gyfer cynorthwyo ac arolygu staff wrth wneud eu dyletswyddau. Mae hyn yn cynnwys:
  - gweithredu'r system arfarnu corfforaethol; a
  - archwiliadau ffeil rheolaidd yn y gwasanaethau oedolion.

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- ddatblygu dull systematig o ran argaeledd a defnyddio gwybodaeth perfformiad ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant; a
- datblygu monitro contractau ymhellach er mwyn i bob ffynhonnell wybodaeth perfformiad gael eu hystyried.

6. Arweinyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol

Dylai'r Cyngor:

- wella'r trefniadau craffu yn y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn archwilio perfformiad yn drylwyr;
- sicrhau bod barn defnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion yn cael ystyriaeth briodol ar lefel cabinet a chraffu; a
- mabwysiadu dull mwy cydlynol o gyflwyno newidiadau trwy bennu'n gyson y camau i'w cymryd, a sefydlu pwy sy'n gyfrifol ac atebol am eu cyflwyno.

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- gynyddu cyflymdra a graddfa newidiadau mewn meysydd lle ceir rhwystrau sylweddol trwy fabwysiadu dulliau mwy trefnus megis:
  - defnyddio technegau rheoli rhaglenni a phrosiectau i gyflawni amcanion a fwriedir; a
  - monitro a gwella perfformiad mewn modd systematig.

Copïau pellach

Mae copïau pellach o'r crynodeb hwn ar gael o:

AGGCC
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw
CF15 7QZ

Ffôn: 01443 848483

e-bost: jointreview@wales.gsi.gov.uk